



CWTSH MYRDDIN

Rhifyn – 08.10.2015

Cyngerdd Apêl Ffoaduriaid



Ar nos Sadwrn, Hydref 3ydd, bu Côr Merched Hyn Ysgol Gyfun Bro Myrddin yn cymryd rhan mewn cyngerdd a drefnwyd i godi arian i Apêl Ffoaduriaid Syria yng Nghapel Penuel, Caerfyrddin. Roedd hi'n braf cefnogi'r fath achos teilwng, a hefyd yn frainit perfformio mewn noson gyda Caryl Parry Jones, Gareth Elis a Chôr Ysgol y Dderwen.

Bore Coffi MacMillan

Bob blwyddyn ers chwarter canrif mae Elusen MacMillan yn annog pobol i ymuno ym More Coffi Mwy'r Byd drwy gynnal digwyddiad yn eu lle gwaith.

Penderfynodd pymtheg o ddisgyblion y chweched i gynnal Bore Coffi yn yr ysgol ar fore Gwener, Hydref 2il ar gyfer y staff a'r chweched. Addurnwyd y Llyfrgell gan faneri a nwyddau MacMillan ac roedd y byrddau yn frith o gacennau blasus yn barod ar gyfer y bore. Cafwyd cefnogaeth wych i'r ymdrech ac roedd y Llyfrgell yn

llawn bwrlwm drwy'r amser egwyl estynedig. Gyda thâl mynediad o £3 a oedd yn cynnwys paned o de neu goffi a chacennau blasus, ynghyd â raffl codwyd y swm anhygoel o £440! Ddim yn ffôl am hanner awr o waith! Diolch i bawb am eu cefnogaeth ac i Miss Jane Cato am gynorthwyo. Gobeithio bydd hwn yn achlysur blynyddol gan fod digon o alw am gefnogaeth ariannol i'r gwaith arbennig mae elusen MacMillan yn ei gyflawni.



Adroddiad gan Elin Wyn James

Aelodau Cyngor Ysgol 2015-2016

Llongyfarchiadau i'r canlynol sydd yn aelodau o'r cyngor ysgol 2015-2016.

Blwyddyn 7 - Elain Owen ac Oliver Percey

Blwyddyn 8 - Awen Thomas a Scott Davies

Blwyddyn 9 Alaw Evans a Mabon Evans

Blwyddyn 10 Alice Morris a Rhys Jones

Blwyddyn 11 Flynn Lewis a Siân Elin

Blwyddyn 12 Greta Llŷr, Bethan Lewis, Carwyn Bebb, Rhodri Williams

Blwyddyn 13 Lowri Luxton, Aled Rosser, Ffion Howells, Carys Jones ac Ieuan Jones.

Dymuniadau gorau iddynt am y flwyddyn.



Canlyniadau chwaraeon

Canlyniad gem pêl-droed blwyddyn 10
Bro Myrddin 4 - Dyffryn Aman - 3

MAWRTH 6 Hydref: Pêl-rwyd yn erbyn Dyffryn Aman

Bl.10a BM 29 v DA 10 (ennill)
Bl.10b BM 10 v DA 6 (ennill)
Bl.11 BM 10 v DA 19 (colli)
Bl. 12-13 BM 9 v DA 35 (colli)

MERCHER 7 Hydref: Pêl-rwyd yn erbyn Maes Y Gwendraeth

Bl. 7 BM 11 v MYG 1 (ennill)
Bl. 8a BM 2 v MYG 20 (colli)
Bl. 8b BM 0 v MYG 5 (colli)
Bl. 9a BM 12 v MYG 19 (colli)
Bl. 9b BM 14 v MYG 3 (ennill)
Bl. 10 BM 15 v MYG 4 (ennill)

IAU 8 Hydref: Twrnaint Cwpan Y Llywydd O dan 18 - Pêl-rwyd
BM 11 v Dyffryn Taf 3 (ennill)

BM 4 v Dyffryn Aman 13 (colli)
BM 3 v Coleg Sir Gar 19 (colli)